

Emma Goode – Rheolydd Prosiect Argyfwng Costau Byw

Ymunodd Emma â thîm Un Llais Cymru ym mis Tachwedd 2023. Yn ei rôl yn Rheolydd Prosiect Argyfwng Costau Byw mae Emma yn arwain rhaglen sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo Cynghorau Cymuned a Thref i fynd i'r afael â heriau'r argyfwng costau byw.

Cafodd Emma ei geni a'i magu yn Y Fenni ac ar ôl byw i ffwrdd dychwelodd yno i fagu ei theulu 18 mlynedd yn ôl. Gweithiodd Emma ym meysydd cyflawni prosiectau a marchnata yn y sector preifat am 15 mlynedd a rhedodd ei busnes manwerthu ei hun yn Y Fenni lle y bu'n gweithio'n agos â'r cyngor tref a grwpiau eraill i gyflawni mentrau busnes, cymunedol ac elusennol.

Am y degawd cyn ymuno ag Un Llais Cymru, roedd Emma yn Gyngorydd Busnes ar wasanaeth Busnes Cymru Llywodraeth Cymru yn cefnogi dros 1500 o fusnesau bach a chanolig i gychwyn, tyfu, a datblygu eu busnesau.

Y tu allan i'r gwaith, mae Emma yn mwynhau cerdded ei chŵn ar fryniau Bannau Brycheiniog a'r Mynyddoedd Du.